

# SGORIO CYFLWR CORFF (BCS)

## YDYCH CHI'N CWRDD Â'R TARGED?




### Y prif ffactorau sy'n arwain elw cynhyrchiant mewn diadelloedd yw:

1. Pwysau ŵyn (kg) sy'n cael eu diddyfnu fesul hectar
2. Pwysau fesul oen wrth ddiddyfnu
3. Nifer yr ŵyn sy'n cael eu diddyfnu fesul hectar

➔ Bydd sgôr cyflwr corff mamogiaid yn dylanwadu ar y ffactorau hyn ←

### Sut i sgorio cyflwr y corff

- Teimlwch ar hyd asgwrn cefn a lwyn pob mamog, o'r asen olaf hyd at esgryn y cluniau.
- Rydych chi'n chwilio am orchudd braster dros 'gnapiau asgwrn cefn' (y rhan o'r asgwrn cefn sy'n wynebu at i fyny) a'r 'cnepynnau traws' (y prosesau esgrynog bob ochr i'r fertebra).
- Cofiwch ystyried newidiadau o ran gorchudd gwllân rhwng mamogiaid; rydych chi angen chwilio am orchudd braster/cyhyrau dros yr asgwrn, nid dwysedd y gwllân.



#### Sgôr cyflwr corff 1 -

- Mae'r asgwrn cefn a'r fertebra yn amlwg ac yn finnog.
- Gellir teimlo a gwthio eich bysedd yn hawdd o dan bob fertebra.
- Mae'r lwyn yn denau, heb orchudd braster.


#### Sgôr cyflwr corff 2 -

- Mae'r asgwrn cefn yn dal i fod yn amlwg, ond yn teimlo'n fwy llyfn, gyda fertebrau unigol i'w teimlo fel crychau o dan y braster a'r cyhyrau.
- Mae'n dal i fod yn bosibl gwthio eich bysedd o dan y cnepynnau traws gydag ychydig o bwysau.
- Mae'r lwyn o ddyfnder cymedrol, ond heb lawer o orchudd braster.

#### Sgôr cyflwr corff 3 -

- Mae prosesau fertigol pob fertebra yn llyfn ac yn grwn.
- Mae angen pwysu'n galed i deimlo pen y fertebra.
- Mae'r lwyn yn llawn, gyda gorchudd braster cymedrol.





#### Sgôr cyflwr corff 4 -

- Mae pennau prosesau fertigol pob fertebra yn teimlo'n llyfn ac yn grwn.
- Mae angen tipyn o bwysau er mwyn gallu teimlo pen yr asgwrn cefn.
- Mae'r lwyn yn llawn ac wedi'i orchuddio â braster cymharol drwchus.

#### Sgôr cyflwr corff 5 -

- Nid oes modd teimlo unrhyw ran o'r asgwrn cefn, hyd yn oed wrth roi pwysau.
- Mae'r lwyn yn llawn iawn ac wedi'i orchuddio â braster trwchus.

### Targedau sgôr cyflwr corff ar gyfer eich diadelloedd ar wahanol adegau o'r flwyddyn

Amseriad	Mamogiaid bridiau bychain (bridiau mynydd)	Mamogiaid bridiau canolig (bridiau ucheldir)	Mamogiaid bridiau mawr (bridiau llawr gwlad)
Diddyfnu	2.0	2.0	2.5
Hwrdda	2.5	3.0	3.5
Canol beichiogrwydd	2.0	2.5	3.0
Diwedd beichiogrwydd	2.0	2.5	3.0
Wyna	2.0	2.5	3.0
Wyth wythnos ar ôl wyna	2.0	2.0-2.5	2.5-3.0

Ffynhonnell: Safonau lles RSPCA – Defaid - 2023

### Mabwysiadu arferion rheoli'n seiliedig ar sgôr cyflwr corff - Coeden benderfyniadau

#### Ar ba gam ydych chi?

Diddyfnu		Cyn hwrdda		Sganio	
A yw eich sgôr cyflwr corff yn is neu'n uwch na 3?		A yw eich sgôr cyflwr corff yn is neu'n uwch na 3?		A yw eich sgôr cyflwr corff yn is neu'n uwch na 3?	
UWCH ↓	IS ↓	UWCH ↓	IS ↓	UWCH ↓	IS ↓
<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylai mamogiaid barhau ar system bori cylchdro ar borfa a monitro eu sgôr cyflwr corff yn rheolaidd</li> <li>- Ystyriwch gylchdroi'r grŵp y tu ôl i grwpiau eraill o famogiaid â sgôr cyflwr corff is sydd angen porfa o ansawdd gwell</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhewch fod y grŵp yn cael porfa o ansawdd gwell trwy redeg gydag ŵyn benyw neu gylchdroi cyn y brif ddiadell</li> <li>- Cynnal prawf Cyfrif Wya'u Ysgarthol (FEC) i weld ai parasitiaid yw'r broblem</li> <li>- Samplu gwaed mamogiaid ac ŵyn benyw i wirio lefelau elfennau hybrin</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylai mamogiaid barhau ar system bori cylchdro ar borfa a monitro eu sgôr cyflwr corff yn rheolaidd</li> <li>- Ystyriwch gylchdroi'r grŵp y tu ôl i grwpiau eraill o famogiaid â sgôr cyflwr corff is sydd angen porfa o ansawdd gwell</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhewch fod y grŵp yn cael porfa o ansawdd gwell trwy redeg gydag ŵyn benyw neu gylchdroi cyn y brif ddiadell</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylai mamogiaid barhau ar system bori cylchdro ar borfa a monitro eu sgôr cyflwr corff yn rheolaidd</li> <li>- Ystyriwch gylchdroi'r grŵp y tu ôl i grwpiau eraill o famogiaid â sgôr cyflwr corff is sydd angen porfa o ansawdd gwell</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Dadansoddwch eich silwair i sicrhau bod y diet yn darparu'r maeth gorau posibl</li> <li>- Tynnu'r mamogiaid sy'n cario dau a tri oen sydd â chyflwr corff is o'r grŵp a rhoi dogn o ansawdd uwch i fodloni eu gofynion egni uwch</li> <li>- Cynnal prawf gwaed ar famogiaid gwag i wirio am ensootig, tocsoplasma a chlefyd y ffin</li> </ul>

- Dylid sicrhau bod mamogiaid sy'n tanberfformio'n gyson ar ôl cymryd camau adfer yn cael eu harchwilio ymhellach gan eich milfeddyg, neu'n cael eu difa o'r ddiadell.